# Datganiad hygyrchedd ar gyfer arolwg effaith cwblhau prosiect

See all updates

Mae'r datganiad hygyrchedd hwn yn berthnasol i'r Arolwg Effaith Cwblhau Prosiect.

Cafodd yr arolwg ei gynnal gan Gronfa TDreftadaeth y Loteri Genedlaethol gan ddefnyddio meddalwedd trydydd parti SmartSurvey.

Rydym eisiau i gymaint o bobl â phosibl allu defnyddio'r arolwg hwn. Er enghraifft, mae hynny'n golygu y dylech allu:

- Wrando ar yr arolwg gan ddefnyddio darllenydd sgrin, ac ar gyfer rhai darllenwyr sgrin (e.e. NVDA neu JAWS) llenwi'r arolwg yn null ffurflenni/canolbwyntio.
- Llywio'r arolwg gan ddefnyddio bysellfwrdd yn unig.
- Defnyddio ffurf cyferbyniad uchel yn Windows

Mae'r arolwg hwn wedi'i adeiladu gan ddefnyddio dim ond y mathau o gwestiynau y mae SmartSurvey wedi'u nodi fel rhai sy'n cydymffurfio'n llawn â WCAG 2.2 AA.

Rydym hefyd wedi gwneud testun yr arolwg mor syml â phosibl i'w ddeall.

Mae gan AbilityNet gyngor ar wneud eich dyfais yn haws ei defnyddio os oes gennych anabledd.

## Pa mor hygyrch yw'r wefan hon

Rydym yn gwybod nad yw rhai rhannau o'r arolwg hwn yn gwbl hygyrch:

- ni allwch addasu uchder llinell neu fylchau testun
- ni allwch neidio i'r prif gynnwys wrth ddefnyddio darllenydd sgrin
- mae gan rai elfennau gyferbyniad lliw annigonol gan eu gwneud yn anodd eu darllen

## Adborth a gwybodaeth gyswllt

Os ydych yn dod o hyd i unrhyw broblemau nad ydynt wedi'u rhestru ar y dudalen hon neu'n meddwl nad ydym yn bodloni gofynion hygyrchedd, cysylltwch: insight@heritagefund.org.uk.

Os oes angen gwybodaeth arnoch ar y wefan hon mewn fformat gwahanol fel PDF hygyrch, print bras, darllen hawdd, recordiad sain neu braille:

E-bost: insight@heritagefund.org.uk

Ffôn: 0161 200 8474

Byddwn yn ystyried eich cais ac yn ateb o fewn 10 diwrnod gwaith.

## Gweithdrefn orfodi

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) yn gyfrifol am orfodi Rheoliadau Hygyrchedd y Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau Symudol) (Rhif 2) 2018 (y 'rheoliadau hygyrchedd). Os nad ydych yn hapus â'n hymateb i'ch cwyn, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori a Chefnogi Cydraddoldeb.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon yn gyfrifol am orfodi'r Rheoliadau Hygyrchedd y Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau Symudol) (Rhif 2) 2018 . Os nad ydych yn fodlon â'n hymateb, cysylltwch â'r Comisiwn Cydraddoldeb yno.

## Gwybodaeth dechnegol am hygyrchedd y wefan hon

Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi ymrwymo i wneud ei gwefan yn hygyrch, yn unol â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff y Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau Symudol) (Rhif. 2) 2018.

## Statws cydymffurfio

Mae ffurflenni SmartSurvey yn cydymffurfio'n rhannol â'r Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwe (WCAG) Fersiwn 2.2 Safon AA, oherwydd yr achosion o beidio â chydymffurfio a restrir yn yr adran gynnwys anhygyrch.

Am wybodaeth am ba mor hygyrch yw ffurflenni ac arolygon SmartSurvey, gweler datganiad hygyrchedd SmartSurvey.

## Cynnwys nad yw'n hygyrch

Nid yw rhai cynnwys mewn ffurflenni SmartSurvey yn hygyrch. Gan mai meddalwedd trydydd parti yw SmartSurvey, ni allwn cywiro'r materion hyn yn uniongyrchol.

## Methiant i gydymffurfio â'r rheoliadau hygyrchedd

Nid yw rhai cynnwys a mathau o gwestiynau mewn arolygon a ffurflenni SmartSurvey yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau hygyrchedd.

Gweler ddatganiad hygyrchedd SmartSurvey am wybodaeth fanwl.

Lle bo'n bosibl, byddwn yn gweithio gyda SmartSurvey i leihau'r materion hyn.

## Yr hyn rydym yn ei wneud i wella hygyrchedd

Mae SmartSurvey yn gweithio i wella nodweddion hygyrchedd ym mhob fersiwn newydd o'r feddalwedd.

Byddwn yn nodi materion hygyrchedd ac yn hysbysu SmartSurvey.

Mae gwelliannau y mae SmartSurvey yn gweithio arnynt yn cynnwys:

- gwneud y rhyddhad mawr nesaf o'r codfa yn gwbl gydnaws â WCAG 2.2 AA

- dileu tablau cynllun wrth i SmartSurvey ddiweddaru'r codfa
- gwella hygyrchedd cwestiynaudyddiad, graddfa llithro, rhestru a rhestr chwiliadwy
- gwella hygyrchedd themâu arolygon safonol
- cynnal profion, gan gynnwys profion pellach gyda defnyddwyr arbenigol a phrofi cydnabyddiaeth lleferydd
- gwneud gwelliannau parhaus a gwahodd adborth gan ddefnyddwyr ag anghenion hygyrchedd

Mae SmartSurvey wedi cyhoeddi cyngor ar gyfer darllenwyr sgrin ar gwblhau arolygon ar ei wefan.

Bydd y datganiad hygyrchedd hwn yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw faterion neu newidiadau i feddalwedd SmartSurvey.

## Paratoi'r datganiad hygyrchedd hwn

Paratowyd y datganiad hwn ar 19 Mawrth 2026.

Cafodd ei brofi'n fewnol gan ddefnyddio technegau â llaw ac awtomataidd (gan gynnwys estyniadau porwr WAVE ac axe-core) a darllenydd sgrin NVDA.